

Ffordd Gyswilt Llangefni, Rhan 4

Bwletin y Prosiect: Awst 2017

GRIFFITHS

civil engineering and construction

Cyflwyniad a Diweddariad Gwaith

Penodwyd Griffiths gan Gyngor Sir Ynys Môn i adeiladu'r rhan diweddaraf o Ffordd Gyswilt Llangefni a cychwynnodd y gwaith ar 22 Mai 2017.

Bydd rhan 4 yn cynnwys cylchfan newydd ar yr A5114 ar gyrion y dref a rhan o ffordd yn ei chysylltu â Stad Ddiwydiannol Llangefni.

Bydd y ffordd gyswilt newydd yn helpu i sicrhau buddion economaidd sylweddol ar gyfer Llangefni ac Ynys Môn. Unwaith y bydd y bedair rhan wedi eu cwblhau, byddant yn cysylltu campws Pencraig Grŵp Llandrillo Menai â'r A5114 yng nghyffordd Ffordd Glanhwfa/Stad Ddiwydiannol.

Bydd hyn yn fodd i gampws Grŵp Llandrillo Menai dyfu ac ehangu a bydd yn galluogi gwell mynediad i'r safleoedd Parth Menter. Yn ychwanegol at hynny, bydd y cynllun yn gwella cysylltiadau â'r A55 ac yn helpu i leihau cyfyngiadau traffig yn canol tref Llangefni.

Diweddariad ar Gwaith

Mae gwaith yn dod yn ei flaen yn dda iawn gyda rhan cyntaf o'r gwaith bron a'i gwblhau. Yn ystod y rhan yma o'r gwaith oedd angen clirio y safle, dymchwel y wal presennol, gwrthgloddio sylweddol a gosod traeniau dŵr wyneb, pibellau i drosglwyddo ceblau goleuadau stryd a hefyd ymylon palmentydd. Mae rhan cyntaf o'r gwaith gwynebu yn cychwyn yn gynnar mis yma. Bydd hyn yn ein galluogi i drosglwyddo traffig i'r ffordd newydd er mwyn parhau efo'r gwaith adeiladu ar y gyffordd presennol.

Ar hyn o bryd mae'r prosiect yn gwneud cynnydd well na'r disgwyl gyda dyddiad cwblhau ym mis Ionawr 2018.



Eisiau cysylltu â ni?

Eich Swyddog Cyswilt Cyhoeddus ymroddedig ar gyfer Cynllun Ffordd Gyswilt Llangefni yw Mandy Evans. Gellir cysylltu â hi rhwng 8am a 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener. Y tu hwnt i'r oriau hyn, neu os nad yw Mandy'n gallu ateb, gadewch neges a daw yn ôl atoch.

Ff: 03300412185

E: mandy.evans@alungriffiths.co.uk

Cynllun 'Considerate Constructors'

Considerate Constructors Scheme

Yn Griffiths, 'rydym yn hynod ymwybodol o'r effaith a gawn ar ein cymdogion, sut yr ydym yn rhyngweithio gyda'r gymuned leol, ac yr argraff a roddwn o'n diwydiant



Rydym wedi cofrestru prosiect Ffordd Cyswilt Llangefni, Rhan 4 gyda'r Cynllun 'Considerate Constructors', menter sy'n anelu at wella delwedd y diwydiant adeiladu a hyrwyddo arfer da.

Byddwn yn cael ein monitro a'n sgorio gan asesydd annibynnol ar:

- Gwella EDRYCHIAD
- Amddiffyn yr AMGYLCHEDD
- Gofalu am y GWEITHWYR
- Parchu y GYMUNED
- Sicrhau DIOGELWCH pawb

Bydd y canlyniadau yn cydnabod arfer da, ac yn cofnodi agweddau o'n gwaith i'w gwellhau.

Os hoffech dderbyn gwybodaeth bellach am y Cynllun 'Considerate Constructors', neu os oes gennych unrhyw faterion neu bryderon ynghylch y gwaith, peidiwch ac oedi i gysylltu â mi neu ewch i wefan 'Considerate Constructors', www.ccscheme.org.uk

Rhaglen ICE 'Bridge to Schools'

Mae Griffiths yn ymroddedig i godi proffil y diwydiant adeiladu ac yn ennyn brwdfrydedd Peiriannwyr Sifil y dyfodol. Mae'r ymrwymiad hwn wedi arwain at datblygu nifer o raglenni sydd yn ymgysylltu ac ysgolion, colegau a phrifysgolion lleol.

Un o'r rhain yw'r 'Institution of Civil Engineers' (ICE), a'i rhaglen 'Bridge to Schools', sydd yn brofiad ymarferol ar gyfer disgyblion sy'n arddangos dylunio a pheirianeg yn syml ac ar ei orau, mewn ffurf pont 'Cable Stay Bridge' 35 troedfedd o hyd.

Fe fu dros 150 o ddisgyblion Blwyddyn 9 Ysgol David Hughes, Porthaethwy yn cymryd rhan yn y gweithgaredd 'ICE Bridge to Schools' cyn gwyliau hanner tymor Sulgwyn. Wedi eu rhannu i'w dosbarthiadau cofrestru bu'r saith grwp yn cael y cyfle i adeiladu fersiwn bychain o'r Ail Groesfan Hafren. Fe gawsai'r y disgyblion y cyfle i gael blas ar adeiladu yn gwisgo'r dillad cywir – hetiau caled, wascod 'high-vis', menyg a gogls.



Ar ôl cwblhau y bont, cafoedd pob disgybl y cyfle i cerdded ar draws i profi ei sgiliau peirianeg.

Byddwn yn brysur yn ymweld ag ysgolion yn ardal Llangefni gyda'r 'ICE Bridge', os ydych yn gwybod am glwb ieuencid neu gymdeithas a fyddai'n hoffi i ni fynychu, cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt Cyhoeddus, Mandy Evans, ar 03300412185*

Mae rhaglen 'ICE Bridge to Schools' am ddim ac yn sicr i wneud dysgu yn hwyl!

Diogelwch ar ein Safle

Gyda'r gwyliau Haf yn agosau bu Griffiths yn ymweld â disgyblion Ysgol Corn Hir yn Llangefni er mwyn siarad gyda nhw ynglyn â'r y peryglon o chwarae ar, neu yn agos i, safloedd adeiladu.

Oedd ein masgot lechyd a Diogelwch, Sali Safesteps, ar gael i sichrau bod y sesiwn yn un hwyliog a rhyngweithiol gyda Sali o'r Dosbarth Derbyn yn ymuno â'r hwyl trwy gwisgo i fyny yr un fath a Sali Safesteps!



Hefyd, bum yn ymweld â Canolfan Addysg y Bont yn Llangefni lle clywodd disgyblion Ceint 2 am y risgiau sy'n gysylltiedig a safle adeiladu ac aethont ati i baratoi posteri diogelwch safle i arddangos ar ein safle i rybuddio'r cyhoedd o'r peryglon o fynd ar safle adeiladu ar ben eich hun.

Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth am brosiect Ffordd Gyswllt Llangefni:

<http://community.alungriffiths.co.uk/projects-in-your-area/llangefni-link-road-section-4/>

neu defnyddiwch y cod QR hwn:



Byddem yn falch o glywed eich sylwadau. Gallwch gysylltu drwy ein safle gwe community.alungriffiths.co.uk neu drwy gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cyhoeddus Mandy Evans ar 03300412185

Calls to this number are charged at national call rates and included in inclusive minute plans from landlines and mobiles



Follow us on Twitter @AlunGriffiths_